

Crynodeb gweithredol

- 1.1 Mae'r datganiad hwn yn nodi penderfyniadau Ofcom ar gyfer dyfarnu trwyddedau telegraffiaeth ddi-wifr i ddefnyddio'r band 2.3 GHz (2350-2390 MHz) a'r band 3.4 GHz (3410-3480 MHz a 3500-3580 MHz). Yn benodol, rydym wedi nodi ein penderfyniadau terfynol ar faterion yn ymwneud â chystadleuaeth a'r Rheoliadau Arwerthiant sy'n rhoi ein penderfyniadau ynghylch y broses ddyfarnu hon ar waith.
- 1.2 Mae'r sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz yn debygol o gael ei ddefnyddio gan gwmnïau rhwydweithiau symudol i sicrhau capasiti ychwanegol ar gyfer band eang symudol. Gellir defnyddio'r sbectrwm 3.4 GHz ar gyfer gwasanaethau 5G. Byddwn yn dyfarnu'r sbectrwm drwy arwerthiant.
- 1.3 Yn dilyn y pryderon y gallai'r Arwerthiant arwain at ffordd anghymesur iawn o rannu'r sbectrwm, rydym wedi penderfynu gosod dau gap gwahanol ar faint y gall un cwmni ei gael:
 - Cap o 255 MHz ar faint o sbectrwm symudol y mae modd ei ddefnyddio'n syth ar ôl yr Arwerthiant.
 - Cap o 340 MHz i bob cwmni ar sbectrwm symudol *yn gyffredinol* ar ôl yr Arwerthiant. Mae'r cap cyffredinol hwn yn cynrychioli 37% o'r holl sbectrwm symudol rydym yn disgwyl y bydd modd ei ddefnyddio o fewn amserlen debyg i'r band 3.4 GHz.
- 1.4 Bydd y ddau gap hyn yn rhwystro BT/EE rhag bidio am sbectrwm yn y band 2.3 GHz. Byddant hefyd yn sicrhau nad oes modd i BT/EE ennill mwy nag 85 MHz yn y band 3.4 GHz, ac nad oes modd i Vodafone ennill mwy na 160 MHz ar draws y bandiau 2.3 GHz a 3.4 GHz gyda'i gilydd.

Cefndir

- 1.5 Mae'r galw am ddata symudol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn sgil y cynnydd cyflym yn nifer y bobl sy'n defnyddio ffonau clyfar a dyfeisiau tabled a gallu'r dyfeisiau hyn i gynnig mwy a mwy o wasanaethau. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r galw wedi cynyddu ar gyfradd flynyddol gynyddol o dros 50%, ac rydym yn disgwyl y bydd y galw'n dal i gynyddu felly.
- 1.6 Er bod yr amcanestyniadau o'r twf yn y dyfodol yn ansicr, mae consensws yn gyffredinol y bydd y defnydd o ddata symudol yn cynyddu'n gyflym dros y degawd nesaf – o bosib, yn ôl ffactor 10 i 100. Mae cynnydd o'r fath yn y galw yn rhoi pwysau ar gwmnïau rhwydweithiau symudol i gynyddu eu capasiti er mwyn bodloni disgwyliadau cynyddol defnyddwyr.
- 1.7 Gall cwmnïau rhwydweithiau symudol gynyddu capasiti rhwydwaith mewn sawl ffordd. Un ffordd bwysig yw cyflwyno sbectrwm radio ychwanegol. Gan fod sbectrwm radio yn adnodd prin ac y mae pen draw iddo, mae'r ffordd mae'n cael ei ddyrannu yn arwain at oblygiadau pwysig i ddefnyddwyr gwasanaethau cyfathrebiadau ac economi'r Deyrnas Unedig.
- 1.8 Yn yr arwerthiant hwn byddwn yn dyfarnu 190 MHz o sbectrwm ychwanegol, gan gynyddu faint o sbectrwm symudol sydd ar gael i gwmnïau – o 647 MHz i 837 MHz. Mae hynny'n 29% o gynnydd.

Ein proses ddyfarnu

- 1.9 Ein prif ddyletswyddau statudol o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion yng nghyswllt materion cyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, lle bo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Wrth wneud hynny, mae gennym ddyletswydd i sicrhau bod sbectrwm yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau bosib.
- 1.10 Yn sgil y dyletswyddau hyn, rydym wedi nodi dau brif amcan polisi wrth ddyfarnu'r bandiau 2.3 a 3.4 GHz: yn gyntaf, sicrhau bod y sbectrwm ar gael yn amserol i fodloni'r galw gan ddefnyddwyr; ac yn ail, sicrhau bod defnyddwyr a busnesau'n dal i elwa o farchnad gystadleuol o ran darparu gwasanaethau symudol. Rydym yn credu bod sicrhau cystadleuaeth yn y farchnad symudol yn golygu y dylid cael o leiaf pedwar cwmni rhwydwaith symudol er mwyn gwneud yn siŵr bod defnyddwyr yn cael canlyniadau da. Wrth i ni geisio cyflawni ein hamcanion, rydym yn credu y dylai'r broses ddyfarnu fod yn syml pan fo modd – gan ofalu nad yw hynny ar draul canlyniad effeithlon – ac y dylai'r rhai sy'n cymryd rhan ynddi fod yn ffyddiog bod y broses a'r canlyniad terfynol yn deg.
- 1.11 Pan fydd yn debygol na fydd digon o sbectrwm ar gael i fodloni'r galw – fel y gwelir yn y sefyllfa hon – fel arfer yn yr amgylchiadau hynny byddem yn gadael i'r farchnad bennu'r ffordd orau o'i ddyrannu, a hynny drwy arwerthiant yn aml iawn, gan mai'r cwmni â'r gwerth mwyaf ar gyfer y sbectrwm fydd fwyaf tebygol fel arfer o ddefnyddio'r amleddau i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar ddefnyddwyr eu hangen fwyaf.
- 1.12 Fodd bynnag, gallai marchnad ddirwysr fod yn niweidiol i ddefnyddwyr mewn rhai amgylchiadau, hyd yn oed os yw canlyniad yr arwerthiant yn helpu i ddarparu'r gwasanaethau mwyaf gwerthfawr. Er enghraifft, petai'r arwerthiant yn gadael un neu ragor o gwmnïau heb ddigon o sbectrwm i gystadlu'n gryf, mae'n bosib y byddai defnyddwyr yn wynebu prisiau uwch – ac efallai y byddai llai o gymhelliant i gwmnïau eraill arloesi a buddsoddi.
- 1.13 Yn yr amgylchiadau hynny, er mwyn hyrwyddo cystadleuaeth rydym yn teimlo y dylem ddod o hyd i gydbwysedd priodol rhwng y buddion a fyddai'n dod yn sgil bod y cwmnïau â'r gwerth mwyaf yn ennill y sbectrwm, a'r nod o sicrhau cystadleuaeth gref rhwng cwmnïau.
- 1.14 Ar hyn o bryd, rydym o'r farn bod marchnad symudol y DU yn gweithio'n dda ar y cyfan, gyda chystadleuaeth gref rhwng pedwar cwmni rhwydwaith symudol. Mae'r prisiau'n dal yn gymharol isel o'u cymharu â gwledydd eraill, ac mae lefel sylweddol o fuddsoddi mewn gwasanaethau a chynnyrch newydd. Fodd bynnag, byddem yn bryderus petai risg y byddai canlyniadau'r Arwerthiant hwn yn lleihau'r gystadleuaeth.
- 1.15 Rydym wedi asesu'r effeithiau tebygol ar gystadleuaeth wrth ddyfarnu'r bandiau 2.3 a 3.4 GHz, ac wedi nodi dau bryder posib: y risg na fydd pedwar cwmni rhwydwaith symudol credadwy ym marchnad y DU mwyach yn sgil yr arwerthiant; a'r risg y gallai cyfrannau anghymesur iawn o sbectrwm wanhanu'r gystadleuaeth – hyd yn oed os bydd pedwar cwmni rhwydwaith symudol credadwy o hyd.
- 1.16 Fe wnaethom ymgynghori ym mis Tachwedd 2016 ar gynigion i fynd i'r afael â'r pryderon hyn ynghylch y gystadleuaeth. Roeddem eisoes wedi gwneud nifer fawr o benderfyniadau eraill am yr arwerthiant, ac rydym wedi'u crynhoi yn y ddogfen hon er hwylustod.

Cynigion ein hymgyngoriad ar faterion cystadleuaeth

- 1.17 Yn ein dogfen ymgynghori ym mis Tachwedd 2016, dywedom fod risg y gallai lefel bresennol y gystadleuaeth ym marchnad y DU leihau wrth i'r galw gan ddefnyddwyr am wasanaethau symudol gynyddu.
- 1.18 Dywedom fod anghymesuredd o ran faint o sbectrwm sydd gan gwmnïau gwahanol yn golygu y gallai rhai cwmnïau fod mewn sefyllfa gryfach nag eraill i ymateb i'r cynnydd yn y galw. Yn y cyd-destun hwn, roedd gan BT/EE 45% o'r holl sbectrwm symudol yr oedd modd ei ddefnyddio ar y pryd; roedd gan Vodafone 28%; O2 15%; a H3G 12%. Yn ein barn ni, gallai'r anghymesuredd hwn ddod yn amlycach byth heb fesurau cystadleuaeth yn yr arwerthiant.
- 1.19 Roeddem yn poeni mwy am ganlyniadau sbectrwm anghymesur i'r band 2.3 GHz na'r band 3.4 GHz. Bydd modd defnyddio'r band 2.3 GHz yn syth ar ôl yr arwerthiant, gan ei fod eisoes yn gydnaws â dyfeisiau symudol cyffredin. Nid yw'r sbectrwm 3.4 GHz yn gydnaws ar hyn o bryd – ac erbyn y bydd modd ei ddefnyddio, dywedom ein bod yn disgwyl y byddai sbectrwm arall ar gael ar 700MHz, ac ar 3.6-3.8 GHz o bosib. Dywedom y gallai'r broses o ddyfarnu'r bandiau sbectrwm hyn fynd i'r afael ag unrhyw faterion cystadleuaeth, os byddai angen.
- 1.20 Dywedom petai BT/EE yn ennill yr holl amleddau 2.3 GHz a oedd yn cael eu harwerthu, byddai ganddo bron i hanner holl sbectrwm symudol y DU y mae modd ei ddefnyddio'n syth (49%, ac eithrio'r band 1400 MHz).
- 1.21 Eglurom y byddai gan gwmnïau rhwydweithiau symudol â chyfrannau llai o sbectrwm gyfle i fidio am y sbectrwm 2.3 GHz eu hunain, ac y gallent roi prisiad uchel ar y sbectrwm hwnnw. Fodd bynnag, dywedom hefyd y gallai prisiad cwmni â chyfran fawr o sbectrwm fod yn uwch byth – nid oherwydd y byddai'n defnyddio'r sbectrwm yn fwy effeithiol, ond oherwydd y byddai'n elwa o gystadleuaeth wannach yn y farchnad symudol petai'n ennill y sbectrwm.
- 1.22 Yn ein barn ni, roedd y ffactorau hyn gyda'i gilydd yn arwain at risg sylweddol i gystadleuaeth. Yn sgil ein dyletswyddau statudol, dywedom ei bod yn briodol – yn ein barn ni – i ni ystyried ymyrryd yn y farchnad er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.
- 1.23 Roeddem yn ceisio sicrhau bod lefel yr ymyrryd mor isel ag oedd yn bosib – fel bob amser wrth ystyried ymyrryd yn y farchnad – er mwyn gallu cyflawni ein hamcanion polisi'n effeithiol.
- 1.24 Felly fe wnaethom gynnig gosod cap ar 255 MHz ar faint o sbectrwm y byddai modd ei ddefnyddio'n syth y gallai unrhyw gwmni ei gael – lefel daliadau sbectrwm symudol bresennol BT/EE. Yn sgil hynny, ni fyddai BT/EE yn gallu bidio am y sbectrwm 2.3 GHz. Mae hynny'n golygu ei bod yn fwy tebygol y gallai'r cwmnïau â'r cyfrannau lleiaf o sbectrwm – O2 a H3G – ennill y sbectrwm os byddai ei angen arnynt.
- 1.25 Fe wnaethom gynnig peidio â rhoi cyfyngiad ar y band 3.4GHz. Gan nodi nad oedd modd ei ddefnyddio'n syth, dywedom ei bod yn debygol y byddai'r band hwn – yn ychwanegol at ei botensial i ddarparu gwasanaethau 4G – yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol i lansio gwasanaethau 5G newydd. Dywedom na fyddem am atal arloesedd na'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau 5G o ansawdd uchel os byddai ar gwmnïau angen blociau mawr o sbectrwm yn agos at ei gilydd.
- 1.26 Rydym wedi nodi ffyrdd eraill y gallai cwmnïau addasu eu strategaethau er mwyn bodloni'r galw gan ddefnyddwyr yn y tymor hirach, gan gynnwys defnydd ehangach o

'gelloedd bach' sy'n galluogi cwmni i ddefnyddio sbectrwm yn fwy dwys. Rydym hefyd wedi nodi a oes sbectrwm arall ar amserlen debyg i'r sbectrwm 3.4 GHz ar gael y byddai modd ei ddefnyddio – fel yn y band 700 MHz, a'r bandiau 3.6-3.8 GHz o bosib – i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â daliadau anghymesur iawn o sbectrwm a fyddai'n dod i'r amlwg yn sgil dyfarnu 2.3 a 3.4 GHz.

- 1.27 Fodd bynnag, dywedom y gallai fod yn briodol cyflwyno'r mesurau cystadleuaeth yn ychwanegol at y rheini sy'n effeithio ar y band 2.3 GHz os byddai'n debygol na fyddai modd defnyddio'r band 3.6-3.8 GHz tan yn hwyrach o lawer na'r sbectrwm 3.4 GHz.

Datblygiadau ers ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2016

- 1.28 Cawsom 30 ymateb i'r ddogfen ymgynghori ym mis Tachwedd 2016¹, ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus. Ers i ni gyhoeddi'r ddogfen, gwelwyd hefyd newidiadau pwysig sydd wedi effeithio ar farchnad y DU. Mae ein hasesiad wedi datblygu yn dilyn yr ymatebion, ac oherwydd y newidiadau hyn:
- Mae H3G wedi prynu UK Broadband. Mae hyn yn golygu bod gan H3G fynediad at 40 MHz o sbectrwm symudol yn y band 3.4 GHz, yn ogystal ag 84 MHz yn y band 3.6-3.8 GHz. Mae hyn yn golygu bod gan H3G gyfran fwy o lawer o'r sbectrwm symudol cyffredinol y bydd modd ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn lleddfu cryn dipyn ar unrhyw bryderon a oedd gennym ynghylch effaith capasiti H3G yn y tymor canolig a'r tymor hir ar gystadleuaeth.
 - Mae'n ymddangos erbyn hyn y bydd modd defnyddio'r band 1400 MHz ar gyfer gwasanaethau symudol yn gynharach na'r disgwyl (e.e. mae'r band wedi dechrau cael ei gyflwyno'n fasnachol yn yr Eidal). Mae gan H3G a Vodafone 20 MHz yr un o sbectrwm yn y band hwn. Rydym nawr o'r farn y gallai H3G ddefnyddio'r amleddau hyn o 2018 ymlaen h.y. yn ystod y cyfnod trosiannol cyn y bydd modd defnyddio'r band 3.4GHz. Mae hyn yn lleddfu rywfaint ar ein pryderon am effaith capasiti H3G yn y tymor byr ar gystadleuaeth.
 - Rydym yn llai ffyddiog erbyn hyn nag yr oeddem adeg ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2016 y bydd modd defnyddio'r band 3.6-3.8 GHz yn llawn o fewn amserlen debyg i'r band 3.4 GHz. Rydym wedi ymgynghori ar y band 3.6-3.8 GHz, a byddwn yn cyhoeddi datganiad cyn bo hir. Bydd y datganiad hwnnw'n cadarnhau ein bwriad i sicrhau bod y band ar gael ar gyfer gwasanaethau symudol, a bydd yn nodi dull arfaethedig o gyflawni'r amcan hwnnw. O dan ein dull arfaethedig, mae'n debygol y bydd modd i gwmnïau lansio gwasanaethau symudol yn y band 3.6-3.8 GHz mewn nifer o ardaloedd o tua 2020 ymlaen – ond nid o reidrwydd yn genedlaethol erbyn 2022. Mae hyn yn effeithio ar ein dadansoddiad o'r graddau y gallwn ddibynnu ar y band 3.6-3.8 GHz i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch y gystadleuaeth yn y dyfodol a allai ddod i'r amlwg yn sgil y broses ddyfarnu hon. Felly mae'n berthnasol i'n hasesiad o'r mesurau cystadleuaeth sy'n briodol ar gyfer yr Arwerthiant.
 - Rydym wedi gweld tystiolaeth gredadwy ei bod yn bosib na fydd cwmnïau rhwydweithiau symudol yn gallu addasu rhwydweithiau gystal â'r disgwyl i gynyddu capasiti heb sbectrwm ychwanegol. Mae hyn yn golygu ein bod ychydig yn fwy pryderus am effaith cyfrannau anghymesur iawn o sbectrwm ar

¹ Yn ychwanegol at yr ymatebion a gyflwynwyd yn uniongyrchol i Ofcom mewn ymateb i'r ymgynghoriad, cafodd dros 140,000 o ffurflenni eu cyflwyno drwy ymgyrch o'r enw 'Make The Air Fair', a drefnwyd gan H3G (Three).

gystadleuaeth – ond rydym o'r farn bod risg isel y bydd hygrededd unrhyw gwmni rhwydwaith symudol o dan fygythiad.

- 1.29 Rydym wedi ystyried y datblygiadau hyn wrth ddod i'r casgliadau sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwn. Rydym nawr yn nodi tri chyfnod penodol ar gyfer ein dadansoddiad:
- **Y cyfnod trosiannol cyntaf** – yn syth ar ôl Arwerthiant 2.3 a 3.4 GHz nes bydd modd defnyddio'r sbectrwm 3.4 GHz (rydym yn disgwyl y bydd modd gwneud hynny erbyn 2019-20). Yn ystod y cyfnod trosiannol cyntaf hwn, bydd modd defnyddio'r sbectrwm 2.3 GHz ond ni fydd modd defnyddio'r sbectrwm 3.4 GHz.
 - **Yr ail gyfnod trosiannol** – yn dechrau pan fydd modd defnyddio'r 3.4 GHz (2019-2020), ac yn dod i ben pan fydd modd defnyddio'r 3.6-3.8 GHz yn llawn (gallai fod yn 2022 yn dilyn ein dull arfaethedig). Rydym yn disgwyl y bydd modd defnyddio'r band 700 MHz yn ystod y cyfnod hwn.
 - **Cyfnod hirach** – hyd at 5-10 mlynedd i'r dyfodol ar ôl dechrau'r cyfnod y bydd modd defnyddio'r 3.6-3.8 GHz.

Ein hasesiad diwygiedig o'r materion cystadleuaeth

- 1.30 Rydym o'r farn mai isel yw'r risg na fydd unrhyw un o'r cwmnïau rhwydweithiau symudol yn gystadleuydd credadwy yn y farchnad oherwydd nad oes ganddynt lawer o ddaliadau sbectrwm. Rydym yn credu bod y casgliad hwn yn wir ar gyfer y cyfnod trosiannol cyntaf a'r ail gyfnod trosiannol, ac ar gyfer y tymor hirach hefyd. Mae'n bosib y bydd angen i gwmnïau rhwydweithiau symudol â daliadau llai ennill mwy o sbectrwm, ond bydd sbectrwm arall ar gael (gan nodi y byddwn o bosib, yn sgil ein dyletswyddau, yn cymryd camau i hyrwyddo cystadleuaeth wrth ddyfarnu sbectrwm yn y dyfodol).
- 1.31 Fodd bynnag, rydym yn dal o'r farn bod mynd ati mewn ffordd anghymesur i rannu sbectrwm mae modd ei ddefnyddio'n syth yn risg sylweddol i gystadleuaeth. Er ei bod yn debygol y bydd yr holl gwmnïau rhwydweithiau symudol, yn ein barn ni, yn dal yn gystadleuwyr credadwy ar ôl yr arwerthiant, mae'n bosib na fydd y rheini â daliadau llai o sbectrwm yn gallu cystadlu mor gryf yn y dyfodol â'r rheini sydd â daliadau mwy o lawer o sbectrwm.
- 1.32 Rydym yn cydnabod na fydd yr Arwerthiant yn sicr o arwain at ddaliadau anghymesur iawn ond, petai'r gystadleuaeth yn gwanhau felly, gallai wneud niwed sylweddol i ddefnyddwyr. Yn yr arwerthiant mawr diwethaf o sbectrwm symudol (yn 2013) fe wnaethom gynnwys cap cyffredinol o 37% ar gyfer y sbectrwm fel un o'r mesurau cystadleuaeth i fynd i'r afael â phryderon am anghyasuredd o ran daliadau sbectrwm. Wrth i BT brynu EE, mae cyfran sbectrwm endid cyfunol BT/EE yn fwy na'r lefel hon. Mae'n golygu bod gan BT/EE gyfran o 42% o sbectrwm mae modd ei ddefnyddio'n syth erbyn hyn. Mae'r band 2.3 GHz wedi'i eithrio, ond mae'n cynnwys y band 1400 MHz (mae cynnwys y band diwethaf yn lleihau'r ffigur o 45%, a nodwyd yn ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd).
- 1.33 Yn unol â'n penderfyniad dyfarnu yn 2013, rydym yn dal o'r farn y gallai daliadau sbectrwm anghymesur iawn – er enghraifft, un cwmni'n meddu ar fwy nag oddeutu 37% o'r sbectrwm symudol y mae modd ei ddefnyddio am gyfnod hir – achosi risg i'r gystadleuaeth, ac felly i ganlyniadau defnyddwyr.
- 1.34 O ystyried daliadau sbectrwm presennol BT/EE, rydym yn dal yn poeni am sbectrwm anghymesur o ran sbectrwm y mae modd ei ddefnyddio'n syth yn y cyfnod trosiannol

cyntaf (cyn y bydd modd defnyddio'r sbectrwm 3.4 GHz). Mae'r pryder hwn yn ymwneud yn benodol â'r band 2.3 GHz. Heb ymyriad, petai BT/EE yn ennill yr holl sbectrwm 2.3 GHz, byddai ei gyfran o sbectrwm y mae modd ei ddefnyddio'n syth (gan gynnwys y band 1400 MHz) yn cynyddu i 46%.

- 1.35 Rydym hefyd yn poeni am sbectrwm anghymesur yn yr ail gyfnod trosiannol. Er ein bod yn disgwyl y bydd modd defnyddio 80 MHz ychwanegol o sbectrwm yn y band 700 MHz yn ystod y cyfnod hwn, rydym o'r farn bod y risg i gystadleuaeth yn fwy erbyn hyn nag ydoedd adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2016. Y rheswm am hynny yw ein bod yn llai ffyddiog erbyn hyn y bydd modd defnyddio'r sbectrwm 3.6-3.8 GHz gydag ychydig o gyfyngiadau erbyn 2020. Os na fydd modd defnyddio'r band hwnnw o fewn yr un amserlen â'r un ar gyfer y sbectrwm 3.4 GHz, byddai modd i BT/EE gael cyfran o fwy na 42% o sbectrwm drwy ennill yr holl sbectrwm 3.4 GHz.

Ein penderfyniadau ar fesurau cystadleuaeth ar gyfer yr arwerthiant hwn

- 1.36 Yn sgil ein pryder am anghymesuredd mewn sbectrwm y bydd modd ei ddefnyddio'n syth – ac ar ôl ystyried yn fanwl ymateb rhanddeiliaid a'n hasesiad ein hunain o ddatblygiadau yn y farchnad – rydym yn dal yn credu y bydd angen ymyrryd o ran y band 2.3 GHz i hyrwyddo cystadleuaeth.
- 1.37 Yn unol â'r cynigion yn ein hymgyngoriad ym mis Tachwedd 2016, rydym felly wedi penderfynu gosod cap o 255 MHz yn yr arwerthiant ar sbectrwm y mae modd ei ddefnyddio'n syth. Mae'r cap hwn yn cyfateb i ddaliadau presennol BT/EE o sbectrwm symudol, ac felly mae'n rhwystro BT/EE rhag bidio am sbectrwm yn y band 2.3 GHz. Bydd y cap yn lleihau graddfa'r anghymesuredd presennol o ran sbectrwm y mae modd ei ddefnyddio'n syth drwy leihau cyfran BT/EE o sbectrwm y mae modd ei ddefnyddio'n syth i 39% ar ôl yr arwerthiant.
- 1.38 Hefyd, rydym wedi penderfynu gosod cap o 340 MHz yn yr arwerthiant ar faint o sbectrwm symudol y gall un cwmni ei gael *yn gyffredinol*. Mae hyn yn 37% o'r sbectrwm symudol rydym yn disgwyl y bydd modd ei ddefnyddio o fewn yr un amserlen â'r un ar gyfer y band 3.4 GHz, gan gynnwys y 190 MHz sydd ar gael yn yr arwerthiant hwn yn ogystal â'r 80 MHz yn y band 700 MHz rydym yn bwriadu ei ddyfarnu yn 2019. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r cap cyffredinol ar gyfer yr arwerthiant o sbectrwm symudol yn 2013, a osodwyd ar 37% o'r sbectrwm symudol perthnasol bryd hynny.
- 1.39 Rydym o'r farn bod y cap cyffredinol yn ymateb priodol a chymesur i'r pryder ynghylch cystadleuaeth a nodwyd o ran sbectrwm anghymesur yn yr ail gyfnod trosiannol. Rydym o'r farn y bydd yn gallu mynd i'r afael â'r pryder hwnnw'n effeithiol, ac mai dyma'r ffordd leiaf beichus o wneud hynny.
- 1.40 Bydd y cap yn sicrhau nad oes modd i BT/EE ennill mwy na 85 MHz o'r sbectrwm newydd (i gyd yn y band 3.4 GHz). Gallai Vodafone ennill 160 MHz ychwanegol (naill ai yn y band 2.3 neu'r band 3.4 GHz). Ni fydd cyfyngiad ar faint o sbectrwm y gallai H3G, O2 neu unrhyw fidiwr arall ei ennill yn yr arwerthiant hwn.

Cynllun a rheoliadau arwerthiant

- 1.41 Yn ychwanegol at y materion cystadleuaeth, mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi rhywfaint o benderfyniadau eraill o ran Rheoliadau Arwerthiant ac yn bwrw golwg yn

ôl dros y penderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud a'u cyhoeddi ynghylch agweddau eraill ar y broses ddyfarnu hon. Roedd yr ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2016 yn cynnig newidiadau i'r rheolau yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015. Yn benodol, fe wnaethom gynnig diwygio'r rheolau ynghylch tynnu'n ôl unrhyw fidiau a gyflwynir yn ystod prif gyfnod yr arwerthiant.

- 1.42 Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion diwygiedig ynghylch tynnu bidiau'n ôl.
- 1.43 Hefyd, mae cynnwys cap cyffredinol ar sbectrwm yn golygu bod angen i ni wneud diwygiadau pellach i'r Rheoliadau Arwerthiant sy'n rhoi'r penderfyniad hwn ar waith. Heddiw, rydym yn cyhoeddi dogfen ymgynghori statudol ar y Rheoliadau Arwerthiant arfaethedig fel y maent wedi'u diwygio, ac yn gwahodd sylwadau arni².

Y camau nesaf

- 1.44 Ar ôl gwneud ein penderfyniadau polisi terfynol ar yr arwerthiant, ac yn sgil y ffaith y bydd modd i ran sylweddol o'r sbectrwm sy'n rhan o'r broses ddyfarnu hon gael ei defnyddio ar unwaith i ddarparu gwasanaethau symudol, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bwrw ymlaen â'r broses ddyfarnu a rhoi trwyddedau i'r bidwyr llwyddiannus cyn gynted â phosib.
- 1.45 Felly, dyma ein camau nesaf (amserlen fras):
- **14 Awst 2017** – Bydd ein hymgyngghoriad ar y Rheoliadau Arwerthiant yn dod i ben, a byddwn yn dechrau ystyried yr ymatebion.
 - **Diwedd Awst-Dechrau Medi 2017** – Rydym yn rhagweld y byddwn yn gallu cyhoeddi ein datganiad terfynol ar wneud Rheoliadau Arwerthiant.
 - **Canol-diwedd Medi 2017** – Bydd y Rheoliadau Arwerthiant yn dod i rym.
 - **Diwedd Medi-Dechrau Hydref 2017** – Byddwn yn gwahodd ceisiadau gan fidwyr posib yn yr arwerthiant.
 - **Diwedd Hydref-Tachwedd 2017** – Bydd y broses o fidio am amleddau sbectrwm 2.3 a 3.4 GHz yn dechrau.
- 1.46 Rydym yn ymwybodol bod nifer o randdeiliaid wedi dweud yn ystod ein proses ymgynghori y byddent o bosib yn ystyried adolygiad barnwrol o'n penderfyniadau terfynol, gan ddibynnu ar eu natur.
- 1.47 Gan y gallai rhan sylweddol o'r sbectrwm hwn gael ei defnyddio nawr i ddarparu gwasanaethau, rydym o'r farn y dylai unrhyw gais am hawliad barnwrol gael ei gyflwyno'n brydlon, gyda'r cais bod y llysoedd yn cyflymu'r mater.
- 1.48 Fel y nodwyd uchod, rydym yn ymgynghori heddiw ar y rheoliadau arwerthiant sy'n rhoi ein penderfyniadau ar waith. Bydd yr ymgynghoriad yn para am fis. Yn amodol ar ystyried yr ymatebion a gawn, rydym yn bwriadu gwneud y rheoliadau arwerthiant o fewn pythefnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Felly, yn ein barn ni, mae

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/103827/Notice-of-proposal-to-make-regulations-in-connection-with-the-award-of-2.3-GHz-and-3.4-GHz-spectrum.pdf

prydlondeb yn yr achos hwn yn golygu y dylai unrhyw gais am adolygiad barnwrol gael ei gyflwyno o fewn chwe wythnos i ddyddiad y datganiad hwn.